## Cymraeg Llundain

Mae trenau o fa'ma'n dyrnu mynd tua'n gwlad
ond y Bakerloo sy'n rhedeg
fel trydan trwy'n hiaith, ni'r plant.
'Mond trenau lleol sy'n stopio fan hyn
ac felly daw'r Gymraeg i Stonebridge,
iaith rhyw ddeuoliaeth
nad adwaenwn fel deuoliaeth…

Nid deilen yn disgyn mewn coedwig ddiglustiau,
nid esgyrn eira rhyw oes a fu,
nid trydar gwenoliaid a hithau'n nosi,
nid sŵn un llaw'n clapio, mo'r iaith Gymraeg fa'ma
ond yr hyn sydd yn normal i ni…

…waeth be mae Whitehall  yn honni.

Ni yw'r glaswellt yn ei gynddaredd
dan styllod sglein yr Adran Addysg
Ni yw'r deugain miliwn dwyieithog
yn blera ffiniau gwladwriaethau Ewrop,
Ni yw'r lleiafrifoedd llafar
yn adfeddiannu'r ddinas
oedd unwaith biau'r byd,
yn creu byd newydd i'n hunain
achos bellach y byd biau Llundain…

## Mond gwenu wnaeth hi

'mond gwenu wnaeth hi,
yn Drizabone-drwsiadus
wrth dywys ei merlyn drwy'r giât.

Roedd hi'n fore teg o Fai
a'r blagur yn ffrwydro
a minnau'n coedio mynd
wrth i litani'r murddunnod
'na fedrai ond un iaith eu codi'

ganu ar fy nhafod...
am y gwyddwn
fod y caeau'n cyd-anadlu â mi,
fod y coed yn erfyn
imi g'nuta danynt;
am ei bod hi'n fore teg o Fai.

A dyma'r ferch yn troi i'w thyddyn
a'i merlyn yn ei chanlyn
a minnau'n ei chyfarch â 'Sut mae'i?'.

'mond gwenu wnaeth hi,
rhwng swildod ac anneall....

ac yn yr eiliad anghyfiaith honno
dyma finnau'n stondio
am fod cannoedd a miloedd
o wenau tebyg
yn cerdded yn dawel
dan wyneb ein diwylliant,

yn sychbydru beunydd,

ac eto... 'mond gwenu wnaeth hi....

## Lleisio

*(wrth lansio Blwyddyn Ryngwladol yr Ieithoedd Cynhenid 2019, yma yng Nghymru)*

*nomina si pereunt, perit et cognitio rerum*
"os derfydd enwau,
derfydd hefyd dirnad pethau".
Dwedwch felly, fawrion o wybodaeth,
ym mha fodd mae achub iaith?

Nid trwy'i chofnodi, na'i chysegru,
na chloi'i geiriau'n gacamwci gludiog
a lyno 'n sgwennu'r sawl
sy'n stelcian hyd ein cloddiau;

cans cadno wedi'i stwffio
yw pob Cymraeg llyfr;
ei 'untroed oediog' ni syfla mwy,
a'i lygaid gwydr sydd ddall.

Yn y llafar y mae ei lleufer;
a thafodau plant yw ei pharhâd.